5ED O FEHEFIN

# Ysgol Treganna

Cylchlythyr Wythnosol



## Wythnos yma

### Llwyddiant yn Eisteddfod yr Urdd

Diolch o galon i bawb a ddaeth i gefnogi ein cyngerdd Dathlu Doniau neithiwr. Roedd yn hyfryd cael dathlu llwyddiannau ein disgyblion yn Eisteddfod yr Urdd eleni, ac roedd yr awyrgylch yn un arbennig iawn.

Roedd y cyngerdd hefyd yn gyfle i ddiolch i bawb sydd wedi gweithio gyda'r disgyblion drwy gydol y flwyddyn. Diolch yn fawr i'r holl staff sydd wedi hyfforddi ac annog y plant, rydym yn gwerthfawrogi'n fawr yr holl amser, ymroddiad ac egni sydd wedi sicrhau bod cymaint o'n disgyblion wedi cael y cyfle i gystadlu yn yr Eisteddfod.Cawsom wythnos hynod lwyddiannus yn Ynys Môn wythnos diwethaf, a hoffem longyfarch pawb a gystadlodd ar lwyfan yr Eisteddfod Genedlaethol. Tipyn o gamp!

Llongyfarchiadau arbennig i-

- Nansi a Sara – Ennill y Ddeuawd Cerdd Dant
- Y Gân Actol – 3ydd
- Grŵp Cerddoriaeth Greadigol – 3ydd
- Parti Cerdd Dant –3ydd

Llongyfarchiadau hefyd i'n cystadleuwyr celf a ffotograffiaeth:

- Esme (Celf 2D, Bl. 5–6) – 2il
- Isabella (Ffotograffiaeth – cyfres o luniau) – 3ydd
- Ngaaia (Serameg, Blwyddyn 2 ac iau) – 2il

## Calendr

**Gorymdaith Pride Mehefin 13**

**Tafwyl Mehefin 20**

**Tregwyl Mehefin 26**

## Staffio mis Medi

Dyma wybodaeth am strwythur staffio'r ysgol ym mis Medi. Bydd sesiynau pontio yn ystod yr hanner tymor a bydd y disgyblion yn ywmeld â'i dosbarthiadau newydd

| Arweinydd Cymuned/ Community Leader<br>Manawydan<br>Marged Miles Farrier | Arweinydd Cymuned/ Community Leader<br>Pwyll<br>Erwain Alaw | Arweinydd Cymuned/ Community Leader<br>Branwen<br>Eleri Jones |
|---|---|---|
| Math (Meithrin/ Nursery) Elin James | | |
| Bedwyr- Non Glesni Pugh | Mabon- Beca Davies | Olwen – Elin Evans |
| Culhwch – Efa Cray | Gwydion – Catrin Smith | Elen – Emsyl Llwyd |
| Llyr – Marged Miles Farrier | Arianrhod - Sian Morgans | Blodeuwedd - Catrin Rees |
| Lleu – Elin Roberts Evans | Matholwch – Nanw Jones | Ceridwen – Eleri Jones |
| Bendigeidfran – Branwen Parry | Seithennyn – Sara Jones | Gwenhwyfar – Megan Lewis |
| Gwern – Bethan Mair Roberts | Rhiannon – Jess Ausi | Peredur – Rhodri Lewis |
| Taliesin – Geraint Passmore | Gronw – Erwain Alaw | Morfydd – Ffion Owen |

## Gorymdaith Pride

Rydym yn falch iawn o gadarnhau y bydd Ysgol Treganna yn cymryd rhan yng ngorymdaith "Pride" yng Nghaerdydd eleni, ynghyd ag ysgolion eraill y ddinas.

Mae croeso cynnes i deuluoedd a chymuned yr ysgol ymuno â ni.

Bydd yr orymdaith yn cael ei chynnal ar Ddydd Sadwrn,13 Mehefin.

Byddwn yn cyfarfod erbyn 10yb, y tu ôl i'r bwa balŵns ar flaen yr orymdaith. Fe ddewch o hyd i ni o dan faner "Pasbort i'r Ddinas".

Edrychwn ymlaen at ddathlu gyda'n gilydd!

.

## Patrwm Iaith yr Wythnos

**Patrwm iaith wythnos nesaf**
Yn Nhreganna ti'n byw?
Ie/Nage

**Her**
O Gaerdydd mae e'n dod/ hi'n dod…
Ie/Nage

**Testun trafod yr wythnos**
Dyfeisiwch flâs hufen-iâ newydd

**Cân yr wythnos**
Arbediad Campus - Bollt

**Idiom yr wythnos**
Gwell hwyr na hwyrach